Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



# Arolwg 'Dweud Eich Dweud' y gweithlu 2024

## Crynodeb o ymatebion gan weithwyr cymdeithasol

Dyma grynodeb o ymatebion i arolwg 'Dweud Eich Dweud' y gweithlu 2024, a holodd weithwyr gofal cymdeithasol am bethau fel eu hiechyd a'u llesiant, tâl ac amodau, a beth maen nhw'n ei hoffi am weithio yn y sector.

Mae'r adroddiad llawn yn rhannu'r canfyddiadau yn dri grŵp o swyddi – gweithwyr gofal, gweithwyr cymdeithasol, a rheolwyr.

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi trosolwg o rai o'r prif ganfyddiadau am grŵp y **gweithwyr cymdeithasol.**

Mae'r grŵp hwn o ymatebwyr yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol plant a theuluoedd (**25 y cant**), gweithwyr cymdeithasol oedolion (**41 y cant**), gweithwyr cymdeithasol plant ac oedolion (**10 y cant**), myfyrwyr gwaith cymdeithasol (**pump y cant**), rheolwyr gwaith cymdeithasol eraill (**12 y cant**), a gweithwyr cymdeithasol eraill (**chwech y cant**).

**Gallwch ddysgu rhagor am yr ymchwil a chael mynediad at yr adroddiad llawn yma.**

# Demograffeg

Fe wnaethon ni ddarganfod bod:



y rhan fwyaf o weithwyr cymdeithasol rhwng **35 a 44 oed**

**74 y cant** yn fenywaidd a **23 y cant** yn wrywaidd

**73 y cant** yn Wyn, **14 y cant** yn Ddu, a **phump y cant** yn Asiaidd

**86 y cant** yn syth/heterorywiol, **pedwar y cant** yn hoyw neu’n lesbiaidd, a **tri y cant** yn ddeurywiol. Roedd hi’n well gan eraill beidio â dweud

**25 y cant** yn dweud bod ganddyn nhw gyflwr hirdymor sydd wedi para 12 mis neu fwy. O’r rhai â chyflwr hirdymor, dywedodd **65 y cant** ohonyn nhw ei fod yn effeithio ar eu gweithredu o ddydd i ddydd

**33 y cant** yn awgrymu eu bod yn ofalwr y tu allan i’r gwaith

**11 y cant** yn dweud eu bod yn niwrowahanol

**47 y cant** yn dweud eu bod yn gallu siarad o leiaf ychydig o Gymraeg

**20 y cant** yn dweud eu bod yn gallu defnyddio’r Gymraeg yn y gwaith naill ai drwy’r amser neu’r rhan fwyaf o’r amser

**85 y cant** yn cael eu cyflogi gan sefydliad sy’n darparu gofal cymdeithasol, fel awdurdod lleol, corff trydydd sector neu gwmni preifat, a bod **naw y cant** yn cael eu cyflogi gan asiantaeth

**50 y cant** yn dweud eu bod yn aelod o undeb llafur, gyda’r rhan fwyaf ohonyn nhw yn aelod o Unsain/Unison (**33 y cant**) neu Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol (**10 y cant**).

# Recriwtio a chadw



Fe wnaethon ni ddarganfod bod:

**76 y cant** wedi dechrau gweithio ym maes gofal cymdeithasol oherwydd eu bod am gael swydd a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Teimlai **45 y cant** y bydden nhw'n ei fwynhau, a **42 y cant** y byddai'n addas i'w sgiliau. Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un rheswm

**41 y cant** wedi dod i wybod am weithio ym maes gofal cymdeithasol trwy ffrindiau a theulu sy'n gweithio yn y sector, **22 y cant** trwy hysbysebu ar-lein, a **chwech y cant** trwy ffeiriau neu gwmnïau recriwtio

**23 y cant** yn anelu at adael y sector, ymhen **17 mis** ar gyfartaledd.



# Arweinyddiaeth, hyfforddiant a datblygiad



Fe wnaethon ni ddarganfod bod:

**53 y cant** eisiau rôl arwain yn y dyfodol

**67 y cant** o'r farn ei bod yn bosibl iddyn nhw ddod yn arweinydd

**43 y cant** wedi ceisio camu ymlaen yn y flwyddyn ddiwethaf

**83 y cant** o'r farn bod ganddyn nhw ddigon o hyfforddiant i wneud eu swydd yn dda, ac **84 y cant** eu bod yn cael digon o hyfforddiant i gyflawni gofynion DPP

**53 y cant** yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant i symud ymlaen yn eu gyrfa

**55 y cant** yn teimlo nad oes ganddyn nhw unrhyw broblemau o ran cael gafael ar hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith.







# Bwlio, gwahaniaethu ac aflonyddu

Yma, rydyn ni'n cyflwyno canran y gweithwyr cymdeithasol a ddywedodd eu bod wedi profi bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu o wahanol ffynonellau yn y 12 mis diwethaf.

**Gan reolwyr:** Bwlio (**11 y cant**), gwahaniaethu (**11 y cant**), aflonyddu (**pedwar y cant**). O'r rhai a ddywedodd eu bod wedi profi unrhyw un o'r rhain gan reolwr, roedd **54 y cant** wedi rhoi gwybod amdano, dywedodd **tri y cant** fod cydweithiwr wedi rhoi gwybod amdano, a theimlai **28 y cant** o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi rhoi gwybod bod eu pryder wedi'i drin mewn ffordd foddhaol.

**Gan gydweithwyr:** Bwlio (**chwech y cant**), gwahaniaethu (**pedwar y cant**) aflonyddu (**dau y cant**). O'r rhai a ddywedodd eu bod wedi profi unrhyw un o'r rhain gan gydweithiwr, roedd **59 y cant** wedi rhoi gwybod amdano, dywedodd **pump y cant** fod cydweithiwr wedi rhoi gwybod amdano, a theimlai **38 y cant** o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi rhoi gwybod bod eu pryder wedi'i drin mewn ffordd foddhaol.

**Gan bobl maen nhw'n eu cynorthwyo neu eu teulu:** Bwlio (**wyth y cant**), gwahaniaethu (**chwech y cant**), aflonyddu (**12 y cant**). O'r rhai a ddywedodd eu bod wedi profi unrhyw un o'r rhain gan bobl maen nhw'n eu cynorthwyo neu eu teulu, roedd **77 y cant** wedi rhoi gwybod amdano, dywedodd **tri y cant** fod cydweithiwr wedi rhoi gwybod amdano, a theimlai **44 y cant** o'r rhai a ddywedodd fod y mater wedi'i godi ei fod wedi'i drin mewn ffordd foddhaol.

Fe wnaethon ni ddarganfod hefyd bod **69 y cant** yn teimlo bod eu cyflogwr wedi gweithredu'n deg mewn penderfyniadau am symud ymlaen yn eu gyrfa a dyrchafu, yn gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig.

# Cyflog, telerau ac amodau

Fe wnaethon ni ddarganfod bod:

**72 y cant** yn hapus â'u telerau ac amodau

**37 y cant** yn anfodlon â'u tâl

**chwech y cant** yn cael eu cyflogi ar gontract dim oriau. O'r rhai a oedd ar gontract o'r fath, awgrymodd **71 y cant** y byddai'n well ganddyn nhw fod ar gontract oriau sefydlog neu oriau rheolaidd

**49 y cant** yn teimlo eu bod yn 'byw'n gyfforddus' neu'n 'gwneud yn iawn' yn ariannol, **28 y cant** 'dim ond yn llwyddo o drwch blewyn i dalu am bopeth angenrheidiol', a **23 y cant** yn ei chael hi'n 'eithaf' anodd neu'n 'anodd iawn' ymdopi'n ariannol

**62 y cant** naill ai'n ei chael hi'n 'llawer' neu 'ychydig' yn fwy anodd ymdopi'n ariannol o gymharu â'r llynedd, a **13 y cant** naill ai 'ychydig' yn haws neu'n 'llawer' haws.





# Iechyd a llesiant



Fe wnaethon ni asesu llesiant y gweithlu gan ddefnyddio ONS4 – pedwar mesur sy'n cael eu defnyddio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n defnyddio graddfa rhwng sero a 10. Cymharon ni'r ymateb cyfartalog o'r arolwg hwn gyda chyfartaledd y DU ar gyfer pob mesur. Mae pob un o'r canfyddiadau isod yn waeth na chyfartaledd y DU:

**Boddhad â bywyd: 6.75** (Cyfartaledd y DU: 7.45)

**Mae bywyd yn werth chweil: 7.40** (Cyfartaledd y DU: 7.73)

**Hapusrwydd ddoe: 6.53** (Cyfartaledd y DU: 7.39)

**Gorbryder: 4.84** (Cyfartaledd y DU: 3.23)

Gofynnon ni gwestiynau eraill am lesiant hefyd. Fe wnaethon ni ddarganfod:

bod **70 y cant** yn teimlo bod eu morâl yn dda

bod **59 y cant** yn teimlo eu bod yn cael trafferth peidio meddwl am y gwaith ar ôl gorffen

bod **34 y cant** yn teimlo bod ganddyn nhw ddigon o gefnogaeth i ddelio â straen

mai llwyth gwaith (**58 y cant**), gwaith papur neu faich gweinyddol (**52 y cant**), a phoeni am bethau'r tu allan i'r gwaith (**26 y cant**) oedd prif achosion straen

bod **54 y cant** wedi awgrymu eu bod wedi mynd i'r gwaith o leiaf ddwywaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er eu bod mor sâl y dylen nhw fod wedi aros gartref.

# Amodau gweithio



Fe wnaethon ni ddarganfod bod:

**72 y cant** yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan eu rheolwr

**81 y cant** yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan eu cydweithwyr

**48 y cant** yn awgrymu bod ganddyn nhw'r staff cywir i ddarparu gwasanaethau

**55 y cant** yn teimlo eu bod yn gallu bodloni anghenion y bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw ac yn eu cynorthwyo.

Gofynnon ni hefyd faint yr oedd pobl yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y gwahanol grwpiau maen nhw'n rhyngweithio â nhw. Fe wnaethon ni ddarganfod bod:

**74 y cant** yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu rheolwr

**85 y cant** yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu cydweithwyr

**74 y cant** yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y bobl maen nhw'n eu cynorthwyo

**55 y cant** yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan asiantaethau partner

**35 y cant** yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y cyhoedd.

Cafodd yr arolwg hwn ei gynnal ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru gan ymchwilwyr yn Bath Spa University a Buckinghamshire New University, a chydweithwyr o Gymdeithas Brydeinig y Gweithwyr Cymdeithasol (BASW).

**Ffynonellau:**

- cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/measuringnationalwellbeing/april2022tomarch2023